

Arweiniad byr i asesu mewn ysgolion

Arweiniad byr i asesu mewn ysgolion

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan y pedwar consortiwm addysg yng Nghymru er mwyn rhoi arweiniad byr i ysgolion ynghylch asesu. Mae'n cynnwys prosesau ac arferion asesu effeithiol, o'r egwyddorion cyntaf hyd at yr asesu diwedd cyfnod allweddol. Ceir diffiniadau o'r derminoleg asesu a ddefnyddir yn y ddogfen hon ar y diwedd.

Cynnwys

	Adran	Tudalen
1	Dibenion ac egwyddorion asesu effeithiol	3
2	Cynllunio ar gyfer asesu	5
3	Gosod Tasgau, Dilysrwydd a Dibynadwyedd	6
4	Casglu Tystiolaeth, Safoni, Cymedroli a Dyfarniadau Ffit Orau	8
5	Tracio cynnydd, adrodd yn ôl a rhoi adborth i ddysgwyr	10
6	Adolygu'r cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu	12
7	Terminoleg Asesu	13

1 Dibenion ac egwyddorion asesu effeithiol

Mae hyrwyddo addysg plant yn un o brif amcanion ysgolion. Mae asesu yn rhan ganolog o'r broses hon. Mae'n rhaid i asesu cadarn fod:

- yn bwrpasol ac wedi'i gynllunio;
- yn seiliedig ar amcanion clir;
- wedi'i ddylunio er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos beth maent yn ei wybod a beth allant ei wneud;
- yn deg a diduedd;
- yn ddilys, dibynadwy a chyson;
- yn hydrin, gan roi pwyslais ar safon yn hytrach na swm;
- yn cael ei ddefnyddio i wella dysgu ac addysgu.

Dim ond pan fo'r egwyddorion yma yn cael eu cymhwyso y bydd y wybodaeth a gynhyrchir wrth asesu gwaith dysgwyr yn ddigon da i danategu proses wella'r ysgol. Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddimensiynau *asesu ar gyfer dysgu* ac *asesu dysgu* sy'n gyffredin ddealedig, ac ni fyddant yn mentro i drydydd dimensiwn asesu cyflawniad sydd y tu hwnt i'n cwricwlwm rhagnodedig.

Dylid sefydlu gwahaniaeth amlwg rhwng asesu dysgu at ddibenion mesur, graddio ac adrodd, sydd â'i weithdrefnau ei hun ar gyfer ymdrechu i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd, ac *asesu ar gyfer dysgu* sy'n hysbysu ac yn arwain cynnydd disgyblion a sut mae athro yn datblygu dysgu'r disgybl hwnnw. Mae'n anochel y bydd effeithiolrwydd asesu ar gyfer dysgu yn ffactor arwyddocaol wrth benderfynu i ba raddau mae disgybl yn cyflawni ei botensial pan fo dysgu'r disgybl hwnnw yn cael ei fesur a'i raddio a phan adroddir arno.

Asesu ar gyfer dysgu

Defnyddir asesu ar gyfer dysgu, pan gaiff ei wneud yn dda, er mwyn:

- annog a symbylu disgyblion;
- adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes;
- canfod gwendidau a chadarnhau cryfderau;
- cynnig y camau nesaf y dylai disgybl eu dilyn er mwyn adfer gwendid ac ymestyn ac ehangu'r dysgu.

Egwyddorion i'w dilyn wrth asesu ar gyfer dysgu:

- dylid cynllunio'r dull o asesu cynnydd o'r cychwyn;
- mae'n rhaid i'r tasgau asesu fod yn rhan annatod o'r gweithgaredd dysgu;
- mae'r dasg yn asesu'r sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth fwriadedig h.y. mae'n dasg ddilys;
- mae sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgybl yn cael eu datblygu o ganlyniad i'r asesiad;
- dylai pob disgybl allu dangos cyflawniad ar ryw lefel;
- mae angen i'r athro wybod pa fath o adborth sydd fwyaf effeithiol, a gweithredu ar hynny gyda'r disgybl;
- mae angen i'r disgybl ddeall a dilyn y camau dysgu nesaf a gyflwynir gan yr athro;

- mae asesu yn rhywbeth parhaus a deinamig h.y. mae'n broses yn hytrach na digwyddiad;
- mae sut mae disgybl yn dysgu mor bwysig â beth mae'n ei ddysgu;
- mae cyfuniad o fod yn sensitif ac onest gyda'r dysgwr yn hanfodol wrth reoli eu hymrwymiad i ddysgu;
- mae'n rhaid dysgu'r gallu i hunanasesu.

Asesu ar gyfer dysgu yw'r broses o wybod ble'r ydych, i ble'r ydych eisiau mynd a sut mae cyrraedd yno. Mae hyn yn berthnasol i'r dysgwr a'r athro.

Asesu dysgu

Defnyddir asesu dysgu, pan mae'n ddilys a dibynadwy, er mwyn:

- rhoi persbectif dros gyfnod o amser i ddisgyblion ynglŷn â'r cynnydd maent yn ei wneud, a rhoi syniad i'r athrawon o effeithiolrwydd y ddarpariaeth;
- darparu crynodeb o gyflawniadau disgybl ar adeg benodol megis diwedd testun, diwedd blwyddyn, diwedd cyfnod allweddol, pontio i ysgol arall neu goleg, lleoliad gwaith;
- adrodd ar gyrhaeddiad disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion i rieni, llywodraethwyr, yr awdurdod lleol, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru;
- dangos i ba raddau mae ysgol, neu'r system addysg gyfan yn perfformio drwy fonitro tueddiadau a phatrymau;
- hysbysu targedu adnoddau at y manau mwyaf anghenus.

Egwyddorion i'w dilyn wrth asesu dysgu:

- mae'n rhaid i'r eitemau gwaith sy'n cyfrannu at yr asesiad fod yn addas i'r diben h.y. maent yn ddilys ac yn cynnwys yr ystod angenrheidiol ar gyfer y pwnc;
- dylai asesu dysgu ddigwydd ar ddiwedd penodau dysgu;
- mae'n rhaid i ddealltwriaeth o nodweddion pob disgrifydd lefel a'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol lefelau fod yn rhan allweddol o arfau'r athro;
- mae'n rhaid i'r dyfarnu fod yn deg;
- dylid defnyddio profion, er eu bod yn ddull dilys o asesu yn y cyd-destun cywir, er mwyn rhoi cipolwg ar gyflawniad, neu gyrhaeddiad, ar adeg benodol ac mewn maes dysgu rhagddiffiniedig h.y. nid yw profi crynodol rheolaidd, ynddo'i hun, yn ffurfiannol;
- mae angen i adrodd yn ôl gan ddefnyddio deilliannau asesu anghenion dysgu gael ei osod mewn cyd-destun.

2. Cynllunio ar gyfer asesu

Mae cynllunio ar gyfer asesu yn rhan annatod o'r continwwm, o gynllunio'r cwricwlwm i gynllunio gwers a hyd yn oed i gynllunio i fodloni anghenion unigol.

Wrth gynllunio **asesu ar gyfer dysgu**, mae angen i athrawon:

- sefydlu'n bendant beth yw'r deilliannau dysgu bwriadedig ar gyfer unrhyw gwrs astudiaeth a gwersi unigol;
- cynllunio'r hinsawdd dysgu priodol, yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol ac adnoddau;
- egluro i'r dysgwyr yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt;
- cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cynnig mwy nag un cyfle i'r dysgwr ddangos beth mae'n ei wybod a'i ddeall a'i gyflawni;
- sicrhau bod gweithgareddau asesu yn ddilys;
- galluogi dysgwyr i asesu eu cyflawniadau eu hunain a chyflawniadau eu cyfoedion;
- cynllunio i gofnodi, yn ffurfiol ac anffurfiol, y dysgu sy'n digwydd.

Wrth gynllunio **asesu dysgu**, mae angen i athrawon:

- wybod pa ystod o dystiolaeth sydd ei angen er mwyn rhoi dyfarniad dibynadwy;
- gweithio'n unol â pholisi'r ysgol a bodloni gofynion statudol, yn cynnwys y ddyletswydd i dracio cynnydd yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;
- egluro i'r dysgwyr o'r cychwyn pa safonau sy'n ddisgwyliedig ganddynt;
- cynllunio rhaglen ddilynol o gymorth i ddysgwyr er mwyn mynd i'r afael â gwendidau;
- rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrion ar eu dysgu a thrafod eu cynnydd.

Ar ôl asesu, mae angen i athrawon:

- ddefnyddio gwybodaeth asesu i hysbysu cynllunio yn y dyfodol, gan ail edrych ar strategaethau addysgu a dysgu;
- defnyddio gwybodaeth asesu i osod amcanion dysgu ar gyfer grwpiau ac unigolion yn ôl yr angen;
- bod yn gyfarwydd â'r prif negeseuon sy'n bodoli yn y data a gedwir am bob dysgwr a grwpiau o ddysgwyr er mwyn cael darlun clir o gyrhaeddiad blaenorol a photensial.

3. Gosod Tasgau, Dilysrwydd a Dibynadwyedd

Wrth gynllunio dysgu ac integreiddio asesu mewn gweithgareddau, mae'n rhaid i athro ystyried a ellir cyflawni'r amcanion dysgu yn briodol a phendant yn y tasgau neu dasgau a osodir. Gellir pennu amcanion dysgu o'r disgrifiadau lefel yng ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ac, yn achos pynciau sy'n gweithredu'n unol â gorchmynion newydd 2015, o'r disgrifiadau lefel a'r deilliannau.

Dilysrwydd

Mae asesiad yn **ddilys** pan fo'r dasg neu dasgau yn mesur y deilliannau dysgu bwriadedig. Mae'r diffiniad uchod yn gweithio wrth drafod asesu ar gyfer dysgu ac asesu dysgu.

Gall tasgau fod ar ffurfiau amrywiol, ond mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â'r sgiliau a'r ystod o brofiadau a nodir yn y rhaglen astudiaeth. Felly, mae dilysrwydd yn cyfeirio at y ddwy elfen, sef ystod a sgiliau, fel bod yn rhaid i asesiad, p'un a bod hynny'n asesiad o un darn o waith neu gorff o waith:

- ddarparu cyfle i ddysgwr ddangos y sgiliau y bwriedir i'r dasg neu'r tasgau eu mesur; a
- bod yn seiliedig ar un, neu fwy nag un ystod o brofiadau'r rhaglen astudiaeth.

Gellir cymhwyso dilysrwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau e.e. gwaith unigol, gwaith grŵp, ac i ystod eang o dasgau a gweithgareddau, yn cynnwys:

- trafodaeth â chyfoedion a/neu athrawon;
- cyflwyniadau llafar;
- perfformiad / chwarae rôl;
- arddangosfeydd ymarferol ac ymchwiliadau;
- gwaith ysgrifenedig, ffurfiol ac anffurfiol;
- gweithgareddau treialu a gwella;
- profion ac arholiadau.

Gall ffactorau sy'n rhwystro asesiad rhag bod yn ddilys gynnwys:

- mae gofynion yr iaith a ddefnyddir yn golygu bod y dasg yn anhygyrch i rai dysgwyr;
- ni sefydlwyd dysgu blaenorol sy'n hanfodol ar gyfer gweithio ar lefel benodol;
- mae yna ystod annigonol o brofiadau ar gyfer galluogi dysgwr i ddangos beth mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei gyflawni;
- nid yw disgyblion wedi cael arweiniad ynglŷn â chymhwyso eu dysgu mewn mwy nag un cyd-destun.

Dibynadwyedd

Er mwyn helpu athrawon i benderfynu ar ddyfarniadau dibynadwy, mae angen dilyn nifer o gamau neu rag-amodau:

- mae amcanion dysgu yn cael eu nodi'n glir ar gyfer y darn o waith fydd yn cael ei asesu;

- mae'r gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r dysgwr gaffael neu atgyfnerthu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn llwyddo;
- mae'r dasg asesu yn un ddilys;
- mae'r athro yn sicrhau bod y dysgwyr yn gwybod beth ddylent fod yn ei ddysgu;
- mae dyfarniad yr athro ynglŷn â'r safon a gyrhaeddwyd yn seiliedig ar feini prawf clir sy'n cyfateb i'r deilliannau dysgu bwriadedig;
- mae'r dyfarniad yn deillio o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwr wrth gyflawni'r dasg honno, nid o unrhyw ddisgwyliadau blaenorol fyddai gan yr athro ynghylch sut fyddai'r dysgwr hwnnw efallai'n perfformio;
- bydd unrhyw gymorth ychwanegol a roddwyd i'r dysgwr yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu safon y cyflawniad.

4 Casglu Tystiolaeth, Safoni, Cymedroli a Dyfarniadau Ffit Orau

Casglu Tystiolaeth: Proffil dysgwr yw corff o waith y dysgwr sy'n tyfu yn ystod un neu hyd yn oed ddwy flynedd, ac yr asesir ar ddiwedd cyfnod allweddol; mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer:

- archwilio'r corff o dystiolaeth er mwyn dyfarnu lefel ar ddiwedd y cyfnod allweddol;
- cymedroli yn yr ysgol a chymedroli clwstwr;
- darparu tystiolaeth a hysbysu adborth i rieni;
- monitro safonau yn yr ysgol.

Gall y dystiolaeth ei hun fod ar nifer o ffurfiau, ond fel rheol bydd yn:

- waith ysgrifenedig;
- deunydd gweledol e.e. mapiau, diagramau, lluniau, fideos;
- recordiadau sain.

Gall yr athro, neu'r cynorthwydd addysgu, hefyd greu'r cofnod, gan nodi pa nodweddion dysgu a dystiolaethir yn ystod y gweithgareddau hyn.

- gwranddo ar ddisgybl yn darllen;
- trafod testun gyda disgybl;
- gwranddo ar drafodaeth grŵp.

Fel eu bod yn haws i'w rheoli, gellir cofnodi'r gweithgareddau hyn yn electronig a'u hadolygu'n ddiweddarach gan yr athro.

Mae **safoni** yn cyfeirio at y camau a gymerir i sefydlu cysondeb asesu wrth i gorff gwaith disgybl dyfu. Mae angen integreiddio'r broses i amserlen asesu'r ysgol drwy gydol y flwyddyn, ond mae'n rhaid iddo ddigwydd cyn unrhyw gymedroli safonau clwstwr.

Gall y gwaith a safonir fod yn waith gan ddysgwyr o wahanol ddsbarthiadau a gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae cymharu'r gwaith gydag enghreifftiau o waith sydd eisoes wedi ei ddilysu fel gwaith sy'n cyrraedd y safon honno, fel sy'n bodoli mewn portffolio pwnc, yn sicrhau cysondeb dyfarniadau dros gyfnod o amser. Gellir safoni darn neu ddarnau o waith mewn nifer o ffyrdd, ond dylid dilyn egwyddorion sylfaenol:

- mae pawb yn deall yn iawn beth yw deilliannau dysgu'r dasg;
- mae'r dasg yn ddilys yn yr ystyr ei bod yn mesur y deilliannau dysgu bwriadedig;
- mae'r anodiad yn cyfeirio at dystiolaeth o gyflawni'r deilliannau dysgu;
- mae athrawon yn sefydlu dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â pham fod y darn yn perthyn i'r safon dan sylw;
- mae gwersi yn cael eu dysgu e.e. ynglŷn â chynllunio, gosod tasgau, strategaethau dysgu ac addysgu;
- cytunir ar beth ddylai'r dysgwr ei ddysgu o'r asesiad.

Dyfarniad ffit orau yw pan fo gwaith yn dangos nodweddion o un lefel yn bennaf ar draws yr ystod o waith, er bod yna rai nodweddion efallai o'r lefel flaenorol neu'r lefel nesaf mewn rhai agweddau o'r gwaith. Pan fo'r dyfarniad yn gosod rhan helaeth ac arwyddocaol o waith ar lefel benodol, gellir dweud bod y dyfarniad hwnnw yn cynrychioli lefel 'sicr'. Mae'n rhaid i ddyfarniad ffit orau ystyried pwysoliadau gwahanol ar gyfer targedau cyrhaeddiad

mewn rhai pynciau. Mae'n rhaid i'r dyfarniad hefyd ystyried faint o gymorth mae disgybl wedi ei dderbyn.

Mae penderfynu ar lefel sy'n ffitio'r dystiolaeth orau yn ddyfarniad proffesiynol a wneir gan yr athro, ac nid yw'n broses fformwlaig o agregu sgoriau neu islefelau, ond dylai roi ystyriaeth i bwysoliadau ar draws Targedau Cyrhaeddiad. Mae dyfarniad cyffredinol neu ddyfarniad ffit orau yn un:

- sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch sut mae'r disgybl yn perfformio ar draws yr ystod o waith sy'n ofynnol yn y pwnc;
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a gwendidau ym mherfformiad y dysgwr a faint o gymorth a dderbyniodd y disgybl;
- sy'n cael ei wirio yn erbyn disgrifiadau'r lefel agosaf i sicrhau mai'r lefel a ddyfarnwyd fel yr un mwyaf priodol oedd yr agosaf yn gyffredinol at berfformiad y dysgwr;
- sy'n cyfeirio at feini prawf (h.y. sylwadau, gyda chyfeiriadau at yr enghreifftiau perthnasol yng nghorff gwaith disgybl sy'n dangos pan fod y gwaith yn nodweddiadol o'r lefel honno).

Yn nodweddiadol, mae dysgwr ar ben isaf unrhyw lefel yn dangos nodweddion y lefel honno yn bennaf ar draws ystod o waith, ond gall hefyd ddangos nodweddion y lefel flaenorol mewn rhai agweddau o'r gwaith.

Mae dysgwr sy'n perthyn yn sicr i'r lefel yn dangos nodweddion y lefel honno ar draws ystod o waith.

Mae dysgwr ar ben uchaf unrhyw lefel yn amlwg yn dangos nodweddion y lefel honno ar draws ystod o waith gyda rhai enghreifftiau o nodweddion y lefel nesaf.

Mae **cymedroli** yn rhan hanfodol o'r broses asesu mewn ysgol ac mewn clwstwr. Mae'n hanfodol gwybod bod yr hyn y mae ysgol yn ei gyflwyno mewn digwyddiad cymedroli clwstwr yn adlewyrchu'r safonau a ddefnyddiwyd i ddyfarnu lefel i'r holl broffiliau dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae gan gymedroli nod debyg, ond mae'n digwydd ar ôl safoni.

Gall proses gymedroli mewn ysgol, fel yn achos safoni, weithio mewn mwy nag un ffordd, ond dylid dilyn rhai egwyddorion allweddol:

- mae'r tasgau yn ddilys ac mae'r asesiad o ddarnau o waith unigol yn ddibynadwy;
- y deilliannau a'r disgrifiadau lefel ar gyfer pob pwnc yng nghorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yw'r unig feini prawf y gellir eu cymhwyso wrth bennu lefel i broffil dysgwr;
- mae'n rhaid cael ystod lawn o dystiolaeth ar gyfer pob disgybl;
- os nad oes yna dystiolaeth ddogfennol o nodweddion penodol lefel, ni ellir dyfarnu bod y disgybl hwnnw wedi cyrraedd y safonau hynny;
- cytunir ar gonsensws ynglŷn â lefel ffit orau ar gyfer pob proffil dysgwr, gan gyfeirio at y lefel uwch neu is os yw'r dyfarniad yn un ar y ffin.

5 Tracio cynnydd, adrodd yn ôl a rhoi adborth i ddysgwyr

Bydd gwybodaeth feintiol ac ansoddol yn deillio o broses asesu dysgu'r disgyblion. Mae yna werth a defnydd i'r ddau fath. Gall asesu ddweud wrthym faint sydd wedi cael ei ddysgu a pha mor dda y'i dysgwyd. Mae defnyddio'r wybodaeth hon i dracio cynnydd dysgwr yn rhan gritigol o'r broses addysgol.

Tracio cynnydd

Er mwyn i athro a rheolwyr ysgol allu tracio, a thrwy hynny gefnogi cynnydd pob disgybl, mae'n bwysig:

- bod gan yr ysgol bolisi diamwys ynglŷn â beth sy'n ddisgwyliedig gan staff o ran cadw cofnod o gynnydd disgybl;
- bod cofnodion yn adlewyrchu, o leiaf, yr ystod o waith sydd ei angen er mwyn ateb gorchmynion statudol y cwricwlwm;
- bod cofnodion yn dangos pa ddeilliannau dysgu a aseswyd;
- bod cofnodion yn ddilys, dibynadwy a chyfredol;
- bod y broses o gadw cofnodion yn hydrin;
- bod dysgwyr yn gallu tracio eu cynnydd eu hunain;
- bod cofnodion yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol yng nghymuned yr ysgol;
- bod cofnodion o'r safonau a gyflawnwyd gan ddysgwyr yn cael eu defnyddio i adnabod patrymau a thueddiadau; gall y rhain gynnwys materion ynglŷn â disgybl unigol o fewn pwnc neu ar draws pynciau, gyda grwpiau o ddysgwyr neu gyda'r ffordd y darperir y cwricwlwm;
- bod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thanberfformio yn cael eu hadolygu mewn perthynas â'r effaith maent yn eu cael ar safonau cyflawniad;
- bod yr holl ddysgwyr yn cael eu mentora er mwyn eu helpu i gyrraedd targedau;
- bod dysgwyr yn cael cymorth ac anogaeth o ganlyniad uniongyrchol i dracio'u cynnydd.

Rheoli data fel swyddogaeth tracio cynnydd

Felly mae trosolwg strategol o wybodaeth asesu yn arwain at nifer o fuddiannau:

- mae perfformiad yn cael ei osod mewn cyd-destun gan ddefnyddio meincnod a gwybodaeth â gwerth ychwanegol;
- mae perfformiad disgyblion unigol yn cael ei dracio ac mae rhybuddion yn amlygu'r angen am ryw fath o ymyrraeth;
- mae targedau yn cael eu gosod mewn perthynas â dadansoddiad o botensial a chyrhaeddiad disgyblion, yn achos unigolion, dosbarthiadau a cohortau;
- mae perfformiad gwahanol grwpiau yn cael ei ddadansoddi a nodir unrhyw faterion e.e. bechgyn a genethod, grwpiau ethnig, mwy a llai abl;
- mae casgliadau yn dylanwadu ar flaenoriaethau a gweithredu yn y dyfodol.

Adborth i ddysgwyr

Mae natur a safon yr adborth i'r disgyblion yn gritigol er mwyn sicrhau cynnydd real sy'n seiliedig ar wybodaeth. Adrodd am ddeilliannau'r asesiad i'r dysgwr yw'r ffordd fwyaf buddiol o adrodd yn ôl. Ar brydiau gelwir hyn yn 'adborth' neu'n 'flaenborth', ac mae'n effeithiol os:

- bydd athrawon yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniad yn ei holl ffurfiau;

- bydd dysgwyr yn gwybod beth maent yn ei wneud yn dda a sut allant wella;
- bydd athrawon yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrion a siarad am eu cynnydd o ran dysgu;
- bydd dysgwyr yn cael cyfle i asesu a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill;
- bydd dysgwyr yn dysgu o adborth gan eu cyfoedion;
- bydd y marcio yn gyfredol, yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gymorth i ddysgwyr;
- bod yr adborth i ddysgwyr hefyd yn hysbysu cynlluniau gwersi'r athro a sut y gallai adolygu strategaethau addysgu a dysgu mewn modd defnyddiol.

6 Adolygu'r cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu

Mae sicrhau ansawdd ym maes addysg yn rhan o waith bob dydd pob ysgol. Mae'r staff yn defnyddio ystod eang o weithgareddau i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a bod deilliannau yn cael eu gwella ar gyfer plant a phobl ifanc. Oherwydd bod asesu yn rhan annatod o ddysgu, addysgu a'r cwricwlwm, mae'r prosesau sicrhau ansawdd yr un mor gymwys i asesu.

Mae'n rhaid gwau deilliannau'r cymedroli clwstwr i wead y prosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud y mwyaf o'r gwersi a ddysgwyd. Daw gwerthusiad effeithiolrwydd o nifer o ffynonellau allanol a mewnol. Dylai asesu yn ei amrywiol ffurfiau ac ar ei wahanol gamau fod yn ffocws pendant mewn unrhyw weithdrefn sicrhau ansawdd a dylai gynnwys tystiolaeth o:

- adroddiadau Estyn;
- adroddiadau'r cynghorydd her;
- monitro gan uwch arweinwyr a rheolwyr canol;
- hunanwerthuso gan staff a llywodraethwyr;
- arolygon disgyblion a rhieni;
- dadansoddi data manwl - rhagdybiaethau, targedau a gwir berfformiad; perfformiad â gwerth ychwanegol; perfformiad o'i gymharu ag ysgolion 'tebyg' a normau.

7 Terminoleg Asesu

Asesiad: dyfarniad neu benderfyniad ynglŷn â pha mor dda mae dysgwr wedi cyflawni'r deiliant bwriadedig o ganlyniad i weithgaredd dysgu. Gellir cynnal yr asesiad mewn unrhyw leoliad, ffurfiol neu anffurfiol, a gall fod ar unrhyw ffurf e.e. arsylwadau'r dysgwr, gwrando ar y dysgwr, darllen beth mae'r dysgwr wedi ei ysgrifennu.

Asesu ar gyfer dysgu (a elwir weithiau'n '**asesu ffurfiannol**') yw defnyddio asesiadau o ddydd i ddydd, anffurfiol yn aml, i archwilio i ba raddau mae disgyblion wedi dysgu sgiliau penodol neu wedi caffael gwybodaeth a dealltwriaeth fel y gall yr athro benderfynu ar y ffordd orau i'w helpu i ddatblygu eu dysgu. Yn achlysurol gall asesu cyfoedion hefyd ateb y diben hwn. Nid yw tasg neu weithgaredd yn ffurfiannol oni bai bod y wybodaeth sy'n deillio o hynny yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r dysgu.

Asesu dysgu (a elwir ar brydiau yn '**asesu crynodol**') yw'r crynhoi mwy ffurfiol ar gyflawniadau disgybl, y gellir wedyn ei ddefnyddio at amryw ddibenion e.e. adrodd yn ôl i rieni, adrodd am y lefelau a ddyfarnwyd gan Asesiadau Athrawon, ardystio.

Dylid nodi y gellir defnyddio asesiadau at ddibenion ffurfiannol a chrynodol.

Dyfarniad ffit orau yw pan fo gwaith yn dangos nodweddion o un lefel yn bennaf ar draws yr ystod o waith, er bod yna rai nodweddion efallai o'r lefel flaenorol neu'r lefel nesaf mewn rhai agweddau o'r gwaith. Mae'n rhaid i ddyfarniad ffit orau ystyried pwysoliadau gwahanol ar gyfer targedau cyrhaeddiad mewn rhai pynciau.

Cymedroli clwstwr yw'r broses gymedroli a gynhelir mewn clwstwr o ysgolion er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau ym mhob ysgol berthnasol ar ddiwedd cyfnod allweddol yn ddibynadwy ac yn cael eu cymhwyso yn gyson.

Cyson: mae asesiadau cyson yn ddilys a dibynadwy, ac maent felly yn rhoi hyder ac uniondeb i'r broses asesu. (*gweler hefyd 'dilys' a 'dibynadwy'*)

Tystiolaeth yw gwaith y dysgwr sydd wedi dangos ei gyflawniad ar unrhyw ffurf. At ddibenion Asesiadau Athrawon, mae'n rhaid cael ystod ddigonol o dystiolaeth er mwyn gallu rhoi dyfarniad dibynadwy ynghylch y safon neu lefel.

Bydd **Proffil Dysgwr** fel arfer yn cynnwys gwaith un disgybl ar draws ystod y pwnc a bydd yn darparu digon o dystiolaeth i allu dyfarnu pa lefel sy'n ffitio orau'r safon a gynrychiolir yn y proffil. Dylai proffil dysgwr fod mor syml â llyfr neu lyfrau'r dysgwr sy'n dangos dystiolaeth o nodweddion lefelau a tharged/targedau cyrhaeddiad perthnasol. Gall gwaith arall fyddai'n cwblhau'r darlun o safon disgybl gynnwys llyfr thema/testunol, recordiadau sain neu weledol, cofnod darllen. Bydd sylwadau ar y proffil dysgwr yn egluro sut, yn gyffredinol, y penderfynwyd ar y dyfarniad ffit orau, a pham na ddyfarnwyd lefel uwch neu is os ydyw ar y ffin. Bydd y sylwadau yn nodi ble y gellir gweld dystiolaeth o gyflawniad ar lefel benodol yn y llyfr gwaith neu ddeunydd gwreiddiol a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn.

Lefel yw safon benodol, o lefelau 1 i 8 a pherfformiad eithriadol yn ogystal, mewn pob pwnc fel y'u disgrifir yng ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y term cyflawn a

ddefnyddir yw '*lefel cyrhaeddiad*' oherwydd bod y safon yn cyfeirio at y meini prawf yn y disgrifiad lefel.

Disgrifiad lefel: nodweddion y perfformiad sy'n ddisgwyliedig ar bob lefel ym mhob maes dysgu neu darged cyrhaeddiad.

Cymedroli yw'r broses pan fo athrawon yn ystyried ystod o waith dysgwr unigol ac, yng nghyd-destun Asesiadau Athrawon, yn ystyried perfformiad cyffredinol er mwyn cytuno ar safon ar gyfer y corff o waith h.y. lefel. Mewn rhai pynciau bydd hyn ar gyfer targedau cyrhaeddiad ar wahân yn ogystal â'r pwnc yn ei gyfanrwydd.

Mae **deilliannau** yng ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol fydd yn cael eu gweithredu o fis Medi 2015, yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiadau y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar ddeiliant penodol ddangos nodweddion ohonynt.

Dibynadwy: mae asesiad yn ddibynadwy pan fo'r meini prawf ar gyfer dyfarnu yn cael eu cymhwyso'n gywir a bod y dyfarniad hwnnw yn cael ei efelychu gan eraill.

Cymedroli ysgol yw'r broses gymedroli a gynhelir mewn ysgol er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn ddibynadwy ac yn cael eu cymhwyso yn gyson.

Safon yw set o feini prawf y mesurir perfformiad yn eu herbyn.

Safoni yw'r broses pan fo athrawon yn craffu ar ddarnau unigol o waith er mwyn cytuno ar safon bob un yn seiliedig ar feini prawf penodol (e.e. nodweddion a geir yn y disgrifiadau lefel). Fel rheol bydd y gwaith a gaiff ei safoni yn perthyn i fwy nag un dysgwr, a dysgwyr o ddosbarthiadau gwahanol a grwpiau blwyddyn. Mae cymharu'r gwaith gydag enghreifftiau o waith sydd eisoes wedi ei ddilysu fel gwaith sy'n cyrraedd y safon honno, fel sy'n bodoli mewn portffolio pwnc, yn sicrhau cysondeb dyfarniadau dros gyfnod o amser.

Portffolio pwnc yw casgliad o waith pwnc-benodol gan wahanol ddisgyblion sy'n dangos nodweddion gwaith ar bob lefel. Fel rheol, mae'r enghreifftiau o waith yn cael eu hanodi er mwyn dangos ac egluro manylion y nodweddion hynny a sut bethau ydynt yn ymarferol. Gall yr anodiadau hefyd fod o gymorth wrth ddangos pa gamau dysgu ddylai'r disgybl hwnnw eu cymryd nesaf.

Asesiad Athrawon: y term technegol a roddir i asesiad statudol athro o lefel ffit orau corff o waith disgybl erbyn diwedd cyfnod allweddol..

Dilys: Mae asesiad yn ddilys pan fo'r dasg neu'r tasgau yn mesur y deilliannau dysgu bwriadedig.

Gwiriad: gwerthusiad annibynnol o ansawdd ac uniondeb y broses gymedroli gan rywun y tu allan i'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw.